**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (162)**
**Dydd Mercher, 19 Hydref 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

..........................

**Eitem 1 -** Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Eitem 2 -** Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Eitem 3** – Datganiad gan y Prif Weinidog : Uno'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad â'r Llywodraeth

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*
**Eitem 4** – Cynnig i gymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 24. 25: Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005

**Eitem 5 –** Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Adrodd ar Brisio Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005

**Eitem 6 –** Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Reoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005

**Eitem 7 -** Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2005 o dan Reol Sefydlog 26

**Eitem 8 -** Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Sector Gwirfoddol

**Eitem 9 -** Y Ddadl Fer - NDM2635 Lynne Neagle (Torfaen): Ariannu teg ar gyfer y Cymoedd: Cyfiawnder o ran Gwariant Cyhoeddus

..........................

**Eitem 1 - Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

............................

**Eitem 2 - Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

............................

**Eitem 3 - Datganiad gan y Prif Weinidog : Uno'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad â'r Llywodraeth**

............................

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

**Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 24. 25**

**Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005**

**NDM2617 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1.

a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd i Aelodau'r Cynulliad ar 11 Hydref 2005 ynghylch Gorchymyn Deddf y

Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 drafft; ac

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2005; a

ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2005.

Dogfennau Ategol:
Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005
Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005
The Fire And Rescue Services Act 2004 (Consequential Amendments) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael

............................

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005

**NDM2637 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi brand llaeth "Bargen Deg" i sicrhau bod ffermwyr yn derbyn pris teg.

**NDM2638 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Medi 2005 ynghylch y Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005 drafft; a

2. Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005 drafft yn cael eu gwneud yn unol â:

    a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005; a

    b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005

Dogfennau Ategol:
Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005
Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005
Reporting Of Prices Of Milk Products (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael

............................

## Eitem 6 – Reoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005

**NDM2636 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu'n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998:

1. Yn penderfynu dirprwyo swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn ac o dan Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005 i Brif Weinidog Cymru.

2. Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff. Nid oes unrhyw swyddogaethau yn ôl y gyfraith nad oes modd eu dirprwyo yn y fath fodd.

*Gosodwyd Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005 yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005.*

Dogfennau Ategol:
Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005

**............................**

**Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2005 o dan Reol Sefydlog 26**

**NDM2639 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 26, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y Disability Discrimination (Public Authorities) (Statutory Duties) Regulations 2005, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2005.

Mae priodoldeb y Gorchymyn yng Nghymru yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2005.

Dogfennau Ategol:
The Disability Discrimination (Public Authorities)(Statutory Duties) Regulations 2005 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
The Disability Discrimination (Public Authorities) (Statutory Duties) Regulations 2005 Explanatory Memorandum - Dim Copi Cymraeg Ar Gael

**............................**

**Eitem 8 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Sector Gwirfoddol**

**NDM2640 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad:

Yn nodi’r camau a gymerwyd i weithredu Cynllun y Sector Gwirfoddol yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2005 ac yn cytuno i gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol.

*E-bostiwyd copïau o Gynllun y Sector Gwirfoddol ac Adroddiad Blynyddol Cynllun y Sector Gwirfoddol at Aelodau’r Cynulliad ar 12 Hydref 2005*

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

‘ond yn mynegi pryder bod gweithrediad rhai o argymhellion y Comisiwn Annibynnol wedi wynebu oedi.’

**............................**

**Eitem 9 - Y Ddadl Fer - NDM2635 Lynne Neagle (Torfaen): Ariannu teg ar gyfer y Cymoedd: Cyfiawnder o ran Gwariant Cyhoeddus**

**............................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**...................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 1 Tachwedd 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**